**Arolwg Urddas a Pharch i Ddefnyddwyr trydydd parti yr Adeilad**

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Comisiwn y Senedd yw’r rheolydd data ar gyfer y wybodaeth yr ydych yn ei darparu, a bydd yn sicrhau y caiff ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

**Ein manylion cyswllt**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ffordd y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio at y Swyddog Diogelu Data yn: diogelu.data@senedd.cymru
0300 200 6565

**Pa wybodaeth ydym yn ei chasglu?**

**Beth yw’r data?**

Nid oes rhaid i chi roi eich enw mewn ymateb i'r arolwg hwn, ond gallai rhai o'r atebion y byddwch yn eu cyflwyno gynnwys eich data personol.
Mae cwestiynau’r arolwg yn ymwneud â’r canlynol:

- Eich gwybodaeth am sut i roi gwybod am ymddygiad amhriodol a sut i gael cyngor a chymorth;
- P’un a ydych wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol neu wedi bod yn dyst iddo, a pha fath o ymddygiad ydoedd;
- Awgrymiadau ar gyfer gwella'r broses.

Peidiwch ag enwi unrhyw un arall mewn ymateb i'r arolwg hwn, na darparu unrhyw wybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag unrhyw un arall. Oherwydd natur gyfrinachol yr arolwg, ni fyddwn yn gallu ymchwilio i unrhyw honiadau penodol a wneir gennych yn eich atebion.

Os caiff unrhyw wybodaeth o natur gyfrinachol ei chynnwys yn yr arolwg, bydd yn cael ei throsglwyddo i Swyddog Cyswllt i'w hadolygu, ond peidiwch â gwneud hyn yn eich ymateb i'r arolwg. Bydd cyfle i ddatgelu gwybodaeth yn gyfrinachol ar ôl i’r arolwg gael ei gyflwyno, a darperir gwybodaeth am sut y gall ymatebwyr gysylltu â Swyddogion Cyswllt pe bai angen.

**Pam ydym yn ei chasglu?**

Polisi’r Comisiwn yw creu amgylchedd gwaith diogel sy’n rhydd rhag ymddygiad bygythiol ac aflonyddu, lle caiff pawb eu trin ag urddas a pharch. Mae casglu'r wybodaeth hon yn ein helpu i lywio unrhyw weithgareddau y byddwn ni’n eu trefnu yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith hwn.

**Pwy sy'n casglu ac yn dadansoddi'r data?**

Caiff ymatebion eu casglu drwy Microsoft Forms, a dim ond aelodau o dîm Gwasanaethau Gweithwyr yr adran Adnoddau Dynol sy’n gallu eu gweld.

Bydd fersiwn ddienw o'r canfyddiadau cyffredinol yn cael ei rhannu â'r Tîm Arwain, y Bwrdd Gweithredol, y Comisiwn, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a swyddogion o Gomisiwn y Senedd ac Aelodau etholedig o’r Senedd.

**A fydd y data yn cael eu rhannu neu eu cyhoeddi?**
Ni chaiff gwybodaeth bersonol fel arfer ei rhannu â thrydydd partïon allanol na'i chyhoeddi. Fodd bynnag, pan ddaw ymatebion i arolygon ar bapur i law mewn iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg, mae'n bosibl y bydd angen eu rhannu â Language Line Solutions er mwyn cael cyfieithiad. Mae eu hysbysiad preifatrwydd ar gael yma: [LanguageLine UK | Data Processing]

Os bydd unigolyn yn dewis rhoi manylion personol sy'n datgelu pwy ydyn nhw yn y blwch testun, dim ond y staff Adnoddau Dynol sy'n gweinyddu'r arolwg hwn fydd yn eu hadolygu ac ni fyddant yn cael eu rhannu ymhellach.

Caiff gwybodaeth ei rhannu'n fewnol â'r Bwrdd Gweithredol, y Penaethiaid Gwasanaeth, y Pwyllgor Safonau a/neu'r Comisiwn yn unig, a hynny ar ffurf ddienw. Mae'n bosibl y cyhoeddir adroddiad cryno ar y canfyddiadau cyffredinol yn allanol ar wefan y Senedd i staff y Comisiwn ar SharePoint, a fydd hefyd yn ddienw.

**Ble y bydd y wybodaeth yn cael ei storio?**
Bydd y wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar ein systemau TGCh. Mae ein system TGCh yn cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft. Bydd unrhyw drosglwyddiad data gan Microsoft y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn dod o dan gymalau cytundebol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd.

**Am ba mor hir y caiff y data eu storio?**
Ar ôl i'r wybodaeth gael ei thynnu allan a'i choladu, bydd data craidd yr arolwg yn cael eu dileu. Bydd hyn yn digwydd o fewn 8 wythnos i ddyddiad cau'r arolwg. Dim ond gwybodaeth ystadegol ddienw a fydd yn cael ei chadw ar ôl y cyfnod hwn.

**Sut y caiff y wybodaeth ei dinistrio?**
Ar ôl i'r wybodaeth gael ei thynnu allan a'i choladu, bydd data craidd yr arolwg yn cael eu dileu'n ddiogel o'r system TGCh.

**Eich hawliau**
Mae gennych chi hawliau penodol dros y wybodaeth sydd gennym. Yn gryno, dyma'r hawliau:
- Yr hawl i gael gwybod am sut y defnyddir eich gwybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gael mynediad at gopïau o'ch gwybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gywiro eich gwybodaeth os yw'n anghywir;
- Yr hawl i ddileu eich gwybodaeth bersonol;
- Yr hawl i gyfyngu ar ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol;
- Yr hawl i wrthwynebu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol.

Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau hyn, anfonwch neges e-bost at ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru.

**Ein seiliau cyfreithiol ar gyfer casglu, cadw a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol**

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol sy'n caniatáu inni gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. At ddibenion prosesu'r data personol a ddarperir gennych yn yr arolwg hwn, rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol a ganlyn:

**Erthygl 6(1)(e) - Mae angen prosesu'r data fel rhan o dasg a gyflawnir er budd y cyhoedd**

Mae er budd y cyhoedd i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cynnal amgylchedd gwaith diogel ar gyfer unrhyw un sy'n defnyddio'r adeilad, lle na fydd unrhyw un yn wynebu unrhyw fygythiadau nac aflonyddu, a lle caiff pawb eu trin ag urddas a pharch. Fel corff sy'n cefnogi Senedd, mae er budd y cyhoedd bod y Comisiwn yn gallu gosod esiampl o sut y dylai amgylchedd gwaith weithredu. Yn yr un modd, mae amgylchedd gwaith diogel hefyd yn galluogi defnyddwyr yr adeilad i gyflawni eu rolau'n effeithiol heb ofni ymddygiad bygythiol ac aflonyddu, a heb ofni diffyg urddas a pharch.

Mae rhan o sicrhau ein bod yn creu'r amgylchedd hwn ac yn ei gynnal yn cynnwys monitro ein gweithredoedd a'n polisïau mewnol, ac effaith y rhain ar ddefnyddwyr yr adeilad.

**Erthygl 6(1)(c) Mae angen prosesu'r data er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol**

Mae dyletswydd gofal ar y Comisiwn tuag at iechyd, diogelwch a lles defnyddwyr yr adeilad. Bydd y data personol a brosesir fel rhan o'r arolwg hwn yn helpu i sicrhau y gall y Comisiwn barhau i fodloni'r ddyletswydd gofal hon drwy ddarparu amgylchedd gwaith diogel i ddefnyddwyr yr adeilad. Mae monitro a yw gweithredoedd a pholisïau mewnol yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y rhwymedigaeth hon yn hanfodol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni.

Bydd unrhyw brosesu data sydd ei angen i gydymffurfio â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth hefyd yn digwydd ar y sail gyfreithiol hon.

**Data personol categori arbennig**

Mae'n bosibl y byddwn yn prosesu data personol categori arbennig fel rhan o'r arolwg hwn os byddwch yn dewis darparu unrhyw ddata o'r math hwn. Mae Erthygl 9(1) o'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn diffinio data personol categori arbennig fel data personol sy'n datgelu tarddiad o ran hil neu ethnigrwydd, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth o undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometrig i adnabod person naturiol yn unigryw, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol person naturiol.

Bydd data categori arbennig yn cael eu prosesu ar y sail eu bod yn angenrheidiol am resymau o ran **budd cyhoeddus sylweddol (Erthygl 9(2)(g) y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol)**, a ddarllenir fel arfer ar y cyd â **pharagraff 6, Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018**. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o ddata personol categori arbennig sy'n ymwneud ag

amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei brosesu ar y cyd â **pharagraff 8, Atodlen 1 i Ddeddf 2018**.

Fel yr amlinellwyd uchod, pan ddarperir data personol categori arbennig, cânt eu prosesu i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cynnal amgylchedd gwaith diogel sy'n rhydd rhag gwahaniaethu, ymddygiad bygythiol ac aflonyddu, lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nid oes rheidrwydd arnoch i ddarparu data personol categori arbennig fel rhan o'ch ymateb, ac rydym yn eich annog i rannu data personol a data categori arbennig dim ond os oes eu hangen i'ch ateb gael ei ddehongli.

**<u>Ceisiadau am wybodaeth a wneir i'r Comisiwn</u>**
Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

**<u>Sut i gwyno</u>**
Gallwch gwyno i'r Swyddog Diogelu Data os ydych yn anfodlon ar sut rydym wedi defnyddio eich data. Mae'r manylion cyswllt ar gael uchod.

Yn dilyn cwyn, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113